

## Canllawiau Ymarfer y Grant Cymorth Tai

### ADRAN 1. PA GAM GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EI YSTYRIED A PHAM?

(Sylwer y bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

#### Cefndir

Yn ystod 2018-19, fe wnaeth y prosiect Cyllid Hyblyg brofi ffordd newydd o weithio mewn saith awdurdod lleol braenaru. Nod y gwaith hwn oedd dod â deg grant ynghyd mewn un grant (y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi) i gryfhau gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddarparu gwasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar ymyrryd yn gynnar ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen a chaniatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol.

Ar 3 Hydref 2018 fe wnaed penderfyniad gan y Gweinidog i rannu'r Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi yn ddau, gan wahanu grantiau sy'n gysylltiedig â thai oddi wrth elfennau nad ydynt yn gysylltiedig â thai ar gyfer yr holl awdurdodau.

[Sylwer: Cynhyrchwyd asesiad effaith integredig ar y pryd, a oleuodd gyngor i Weinidogion ar y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi].

O ganlyniad, o fis Ebrill 2019, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru Grant Plant a Chymunedau (GPaCh), a oedd yn cwmpasu Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau am Waith a Mwy a Gofal Plant a Chwarae. Fe wnaethom hefyd gyflwyno un **Grant Cymorth Tai (GCT)** a oedd yn cwmpasu Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Gorfodi gan Rhentu Doeth Cymru.

Mae *Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol* yn nodi'r angen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd fwy cydweithredol ac integredig. Mae'r ddau grant yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant ac oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau trwy ystod o fecanweithiau ymyrryd yn gynnar, atal a chymorth. Byddant yn ceisio lliniaru neu ddileu anfantais i bobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd bywyd ag eraill, ac felly cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Mae Gweinidogion wedi gosod disgwyliadau clir y dylai'r GCT a'r GPaCh weithio mewn modd di-dor, gan ddarparu gwasanaethau integredig lle y bo'n briodol. Mae'r gwaith i gynhyrchu a datblygu'r trefniadau newydd wedi cael ei wneud gan ddilyn yr egwyddor hon a chyda'r amcan o symleiddio prosesau lle bynnag y bo'n bosibl.

#### Diben y Grant Cymorth Tai (GCT)

Diben y GCT yw mynd i'r afael ag anghenion tai ac anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai yr unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas trwy'r ystod o fecanweithiau ymyrryd yn gynnar, atal a chymorth. Byddant yn ceisio lliniaru neu ddileu anfantais i bobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd bywyd ag eraill,

ac felly cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal. Gan hynny, bydd y GCT yn ymwneud â chael cartref a'i gadw.

Mae'r GCT yn dwyn y tair rhaglen ganlynol ynghyd:

- Cefnogi Pobl
- Elfennau o'r Grant Atal Digartrefedd (2.8 miliwn)
- Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru

Mae'r deilliannau o'r grant yr ydym yn ceisio dylanwadu arnynt yn adlewyrchu nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf LICD"). Dylai fod ffocws ar fynd ati'n weithredol i helpu'r rhai y mae angen help arnynt yn awr a hefyd datblygu dulliau darparu arloesol sydd wedi'u bwriadu i atal pobl rhag dod yn fwy agored i niwed yn y dyfodol.

Mae tai hefyd yn faes blaenoriaeth allweddol yn *Ffyniant i Bawb*, sy'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef "*Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu helpu i fyw bywydau iach, llwyddiannus a ffyniannus*". Mae'r GCT yn cefnogi'r nod sy'n ymwneud â chydweithio i atal digartrefedd a lle na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, am gyfnod byr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. I wneud hyn mae angen i ni fynd i'r afael ag achos sylfaenol digartrefedd a gweithio i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am yn hwy. Felly mae'r GCT yn ceisio sicrhau "*Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, a lle mae gan bawb gartref diogel y gallant ffynnu ynddo... a byw bywyd bodlon, bywiog ac annibynnol*".

### **Datblygu'r Grant Cymorth Tai**

Yn unol â disgwyliadau Deddf LICD rydym wedi dylunio'r broses ymgysylltu mewn perthynas â'r prosiect i ddatblygu'r Grant fel ei bod yn cael ei chyflawni mewn ffordd sy'n cynnwys pobl ac mae dull cydgynhyrchiol wedi cael ei fabwysiadu i ddatblygu trefniadau gweinyddol, llywodraethu, cynllunio a monitro ar gyfer y Grant.

Sefydlwyd Grŵp Llywio ar gyfer y GCT, a'i ddiben oedd cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch y broses ymgysylltu, gan gynnwys cynorthwyo gyda dyluniad y cynllun ymgysylltu, sicrhau sylw cynhwysfawr i randdeiliaid perthnasol a chynorthwyo i ddehongli barn rhanddeiliaid fel bod cyngor i Weinidogion yn amlwg wedi'i gydgynhyrchu.

Wrth ddatblygu'r GCT, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, darparwyr, sefydliadau'r trydydd sector a landlordiaid, i gydgynhyrchu canllawiau sy'n nodi'r fframwaith llywodraethu y dylai awdurdodau lleol weithredu a gweinyddu'r grant ynddo. Mae rhanddeiliaid wedi croesawu'r dull cydgynhyrchiol o ddatblygu opsiynau polisi.

Fe ymgynghorwyd ynghylch dogfen Canllawiau Ymarfer y GCT rhwng 7 Hydref a 28 Tachwedd 2019, ac fe gynhyrchwyr Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad. Cwblhawyd asesiad effaith integredig (AEI) ar y canllawiau drafft cyn ymgynghori. Roedd cwestiwn i asesu'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnwys yn yr

ymgyngoriad ac mae unrhyw adborth a gafwyd wedi cael ei ymgorffori yn yr AEI hwn sydd wedi'i ddiweddarau.

### **Dogfen Derfynol Canllawiau'r GCT**

Y cam gweithredu sy'n cael ei ystyried a'r sail i'r asesiad yw rhoi dogfen derfynol Canllawiau Ymarfer y GCT ar waith. Nid yw'r ddogfen yn awgrymu newid yn y polisi sylfaenol i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu'n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r grant gan awdurdodau lleol o fis Ebrill 2020, sy'n golygu rhai newidiadau a allai gael effaith.

Mae newidiadau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau'r GCT yn cynnwys:

- Creu cysyniad 'Rhaglen Cymorth Tai' sy'n cwmpasu'r ddyletswydd statudol i atal digartrefedd a'r holl wasanaethau a gynigir i roi cymorth i gael mynediad at ddatrysiadau tai addas a'u cadw. Wedyn y Grant Cymorth Tai yw'r mecanwaith a ddefnyddir i ariannu'r elfennau anstatudol.
- Mae diben y grant wedi cael ei ehangu i ymgorffori holl sbectrwm y cymorth sy'n angenrheidiol i atal digartrefedd a meithrin capasiti. Bydd y grant newydd yn cael ei ddiffinio yn ôl ei ddiben o ran tai a bydd yn hyblyg cyn belled ag y gellir dangos effaith gadarnhaol ar allu'r defnyddiwr i sicrhau neu gadw cartref sefydlog
- Mae trefniadau newydd ar gyfer gweithio'n rhanbarthol. Mae'r rhain yn disodli'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (PCC) Cefnogi Pobl â Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol. Nid yw'r grwpiau hyn yn copïo rôl lywodraethu PCCau ond yn lle hynny maent yn darparu'r fforwm i weithio integredig gael ei ddatblygu ac yn cysylltu'r GCT â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan roi cymorth i'r Cynrychiolydd Tai ar y Bwrdd.
- Dileu cymorth â chyfyngiad amser.
- Caniatáu i awdurdodau lleol wneud y penderfyniad strategol a ddylid ariannu gwasanaethau larwm lle mae'r ddarpariaeth yn gwella gallu'r derbynnydd i gynnal ei allu i aros yn ei gartref
- Gwella'r broses cynllunio strategol integredig. Mae'r model arfaethedig yn ceisio diogelu cysyniad y system gyfan o atal digartrefedd trwy'r Rhaglen Cymorth Tai trwy integreiddio'r mecanweithiau cynllunio strategol â'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu strategaeth digartrefedd.
- Un set o ofynion adrodd a monitro. Mae mecanweithiau talu ac adrodd arfaethedig wedi cael eu symleiddio i leihau baich biwrocrataidd y grant newydd.
- Canllawiau comisiynu a chaffael mwy manwl i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddefnyddio dull comisiynu a chaffael mwy hyblyg ac arloesol i allu adeiladu marchnad fwy amrywiol a chynaliadwy.

## A.ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Ni ddylai fod unrhyw effaith negyddol ar blant a phobl ifanc o ran sut y mae'r rhaglenni unigol presennol yn cael eu cyflawni o fewn y grant sengl, gan bod a wnelo dogfen y canllawiau â'r modd y caiff y grant ei ddarparu'n weithredol gan awdurdodau lleol ac nid â newid diben craidd y rhaglenni a'r mathau o wasanaethau a ariennir.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn dwyn ynghyd dair rhaglen y maent i gyd wedi'u bwriadu i geisio gwella deilliannau ystod o unigolion sydd ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas trwy'r ystod o fecanweithiau ymyrryd yn gynnar, atal a chymorth. Prif ddiben y grant yw ariannu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai sy'n helpu i gynorthwyo pobl i fod â'r gallu, yr annibyniaeth a'r sgiliau i gael mynediad at gartref sefydlog ac addas a/neu ei gadw. Mae'r gallu i gadw cartref ac osgoi digartrefedd yn helpu i ddarparu amgylchedd diogel a sicr ar gyfer plant.

Caiff y mathau o grwpiau agored i niwed a gefnogir eu rhestru yn adran 2.1 ond maent yn cynnwys cymorth i rai sy'n gadael gofal, teuluoedd difreintiedig sy'n byw mewn tlodi, teuluoedd â phlant anabl, teuluoedd â phlant sydd wedi cael, neu sy'n wynebu risg o gael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), a phobl ifanc sy'n rhan, neu'n wynebu risg o fod yn rhan o'r system Cyfiawnder Troseddol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r Canllawiau wedi cael eu diweddarau i ehangu'r cymhwysra a hefyd i ganiatáu gwaith cyn tenantiaeth gydag unigolion dan 16 lle gwneir hynny er mwyn meithrin gallu'r unigolyn i ymgymryd â thenantiaeth neu hawl i feddiannu cartref ar ôl ei 16<sup>eg</sup> pen-blwydd.

Yn 2018-19, gwariwyd dros £700k ar bobl ifanc sy'n gadael gofal a £13,704,068 ar bobl ifanc ag anghenion cymorth, trwy Cefnogi Pobl.

### Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Yr erthyglau yng CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r Grant Cymorth Tai yw:

- Erthygl 19 Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, yn cael eu hamddiffyn rhag trais, a rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.
- Erthygl 23 Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig fel eu bod yn gallu byw bywydau llawn ac annibynnol.
- Erthygl 24 Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddynt gadw'n iach.
- Erthygl 27 Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd nad ydynt yn gallu fforddio darparu hyn.

Mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai wedi'i dargedu at helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen ac mae gwasanaethau a ddarperir yn gorfod dilyn canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r holl grantiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiadau o Effaith gwasanaethau a ddarperir ganddynt ar Gydraddoldeb a chaiff hyn ei nodi yn Nogfen Canllawiau Ymarfer y GCT. Mae'r Canllawiau hefyd yn cynnwys gofyniad bod awdurdodau lleol yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant lle y bo'n briodol fel rhan o'u gwaith cynllunio strategol.

Mae oedran yn nodwedd warchodedig a darperir gwasanaethau'r GCT ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal ac ar gyfer teuluoedd â phlant. Mae gallu unigolyn neu aelwyd i gadw cartref ac osgoi digartrefedd yn helpu i ddarparu amgylchedd diogel a sicr ar gyfer plant.

Effaith gadarnhaol y Grant Cymorth Tai yw y bydd gan awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd o ran ble i sianelu eu cyllid i ddiwallu anghenion y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Hefyd, mae'r GCT a'r Grant Plant a Chymunedau (GPaCh) ill dau'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant ac oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ac mae'r Gweinidog wedi pennu disgwyliadau clir y dylai'r GCT a'r GPaCh weithio mewn modd di-dor, gan ddarparu gwasanaethau integredig lle y bo'n briodol. Mae dogfen y Canllawiau'n hwyluso'r broses integreiddio hwn ac mae mecanweithiau'r grantiau'n caniatáu trosglwyddo 5% rhwng y ddau grant yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.